


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL ar Microsoft Teams am 19.00 nos Fawrth Gorffennaf 26 2022

**Presennol :- Cynghorwyr :** Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Keith Roberts, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Aled Griffith

**1. Ymddiheuriadau :-** Cynghorwyr:- Dr Melfyn Edwards a Llinos Murphy

### **2. Archwilio'r cyfrifon.**

Cafwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

### **3 Adolygu Cynllun Datblygu 2021-22**

### **4 Penderfynu ar wariant goleuadau Nadolig 2022**

Trafodwyd materion 3 a 4 ar y cyd a chymharwyd gwariant Nadolig yn benodol. Nodwyd fod pwyllgor Caru Port wedi bod yn ariannu goleuadau Nadolig yn y gorffennol a holwyd os oes bwriad ganddynt i gyfrannu eto eleni. Cytunwyd bod angen gwario ar y goleuadau presennol i gyrraedd y safon ddisgwyliedig ac y dylid darparu sioe deilwng o oleuadau Nadolig ar gyfer trigolion Porthmadog.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i holi Caru Port os oes bwriad ganddynt i gyfrannu at y gôst eleni ac i holi R.J.Electrics am bris atgyweirio'r goleuadau er mwyn dechrau trefnu ym mis Medi.

### **5. Awdurdodwyd y taliadau canlynol :-**

1	Y Ganolfan	Cyfarfod Gorffennaf 12	£ 40.00
2	Cyngor Gwynedd	Archwiliad Mewnol 2021-22	£ 300.00
3	GDPR	Diogelu Data 2022-2023	£ 40.00

### **6. Ceisiadau Cynllunio**

#### **(a) Rhif Cais .: C22/0627/44/AC ( wedi ebostio 18.7.22)**

Lleoliad : Trwyn Cae Iago, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TW

Bwriad: Rhyddhau amodau ar ganiatad apêl APP/Q618/A/18/3207092 ynghlwm â chais C18/0078/44/LL yn cynnwys amod 3 (cytuno deunyddiau) amod 4 (cynllun tirlunio) ac amod 9 (Datganiad Dull Adeiladu).

**Penderfynwyd :-** yn unfrydol i **wrthod** y cais am fod y Cyngor Tref wedi gwrthod y cais gwreiddiol ac nad oedd unrhyw newid wedi bod i'r cais hwnnw.

#### **(b) Rhif Cais .: C22/0625/44/DT (wedi ebostio 19.7.22)**

Lleoliad : Bwthyn Gwyn Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU

Bwriad : Estyniad unllawr i ochr yr annedd a modurdy driphlyg newydd

**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu estyniad.

**Penderfynwyd :-** yn unfrydol i **wrthod** y cais am garej driphlyg gan iddo fod yn rhy fawr ar gyfer maint y tŷ ; yn or-ddatblygiad ac yn amlwg wedi ei fwriadu ar gyfer gosod y tŷ i ymwelwyr.

#### **(c) Rhif Cais .: C22/0483/44/CR (wedi ebostio 21.7.22 )**

Lleoliad: Capel Salem Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9EU

Bwriad I: Addasiadau mewnol i'r adeilad

**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45

Marian Roberts 27.7.22

